Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Datganiad cyntaf: Y prif ganlyniadau

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Arolwg 2008 o Hamdden yn yr Awyr Agored yng Nghymru

17 Medi 2009

Crynodeb o ddarganfyddiadau Arolwg 2008 o Hamdden yn yr Awyr Agored yng Nghymru sydd yn y cyhoeddiad hwn. Cafodd yr arolwg ei gomisiynu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ar y cyd.

Mae'r darganfyddiadau'n cyfleu ymatebion trigolion Cymru ynglŷn â:

- Eu defnydd o'r awyr agored
- Y llefydd, yn cynnwys coetiroedd, yr aethon nhw iddyn nhw
- Y pethau oedd yn eu cymell i fynd i'r awyr agored
- Y pethau oedd yn eu rhwystro rhag mynd i'r awyr agored
- Y 'galw cudd' am hamdden yn yr awyr agored.

Fe wnaeth Ipsos MORI 6,045 o gyfweliadau ffôn rhwng mis Ionawr 2008 a mis Ionawr 2009 gan siarad â phobl sy'n byw yng Nghymru oedd wedi'u trefnu'n haenau yn ôl ardaloedd y chwe Chynllun Gofodol. Y prif ganlyniadau cychwynnol sydd yn y ddogfen hon.

Cyhoeddwyd gan:	Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru
Ymholiadau:	Sue Williams 01248 387386
Ystadegydd:	Gilly Diggins 0131 314 6218
Gwefan:	www.forestry.gov.uk/statistics a www.ccw.gov.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Adran A: Gwybodaeth am yr ymatebwyr

Dylai'r canlyniadau yn yr adran hon gael eu cymryd fel canlyniadau canran o boblogaeth Cymru gyfan, gan fod data'r arolwg wedi cael eu pwysoli i gynrychioli'r boblogaeth gyfan.

1. Mynd allan i'r awyr agored

- Ar sail diffiniad cyffredinol iawn o'r llefydd a'r gweithgareddau, roedd mwyafrif (94%) o'r oedolion sy'n byw yng Nghymru wedi mynd allan i'r awyr agored o leiaf unwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd amrywiaeth yn y ffigurau ar gyfer yr haf a'r gaeaf: dywedodd 97% iddyn nhw fynd i'r awyr agored o leiaf unwaith rhwng mis Ebrill a mis Medi, ond 93% rhwng mis Hydref a mis Mawrth.
- Roedd nifer yr ymweliadau'n amrywio gyda'r tymhorau hefyd. Roedd bron i saith o bob deg (69%) yn mynd i'r awyr agored fwy nag unwaith yr wythnos yn ystod yr haf, ond dim ond ychydig dros hanner (51%) yn ystod y gaeaf.
- Roedd y gyfran yn is wrth holi ynglŷn â'r pedair wythnos diwethaf. Roedd bron i naw o bob deg (86%) wedi bod yn yr awyr agored yn ystod y cyfnod hwnnw. Nifer cymedrig yr ymweliadau a wnaeth pawb oedd wedi bod yn yr awyr agored yn ystod y pedair wythnos diwethaf oedd 18.

2. Y gweithgareddau'r oedden nhw'n eu gwneud

- O'r 94% o bobl a wnaeth rhyw weithgaredd yn yr awyr agored, y rhai dros 75 oed oedd fwyaf tebygol o fod heb wneud unrhyw rai o'r gweithgareddau (23% o'r grŵp oedran hwn), fel y rhai ag anabledd (15%) a'r rhai oedd heb unrhyw gymwysterau (16%), o gymharu â 6% fel y ffigur cyffredinol ar gyfer pobl oedd heb wneud unrhyw weithgareddau. Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd yn ystod y 12 mis diwethaf oedd: cerdded (86% o boblogaeth Cymru); gweld golygfeydd (71%); mynd am bicnic (46%); a defnyddio meysydd chwarae (43%).
- Roedd rhyw ac oedran yn effeithio'n sylweddol ar y math o weithgaredd roedd pobl wedi'i wneud yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o fynd i feysydd chwarae (36% o gymharu â 25%). Roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o fynd i feicio ar ffyrdd (16% o gymharu â 6%) ac i redeg (22% o gymharu â 13%). Roedd pobl hŷn (55-74 oed) yn fwy tebygol o fynd i wylio bywyd gwyllt (31% o gymharu â'r ffigur cyfartalog o 23%). Roedd pobl ifanc (16-24 oed) yn fwy tebygol o fynd i redeg (47% o gymharu â'r ffigur cyfartalog o 17%).
- Nifer cymedrig y gwahanol fathau o weithgareddau roedd pobl wedi'u gwneud dros y pedair wythnos oedd 2.8. Pobl ifanc wnaeth y nifer mwyaf o wahanol weithgareddau, gyda'r rhai 16-24 oed yn gwneud 3.3 gwahanol weithgaredd, ar gyfartaledd, yn ystod y pedair wythnos, tra bo pobl dros 75 oed yn cymryd rhan mewn dim ond 1.5.

3. Y pethau sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan

- Y prif bethau roedd pobl yn sôn amdanyn nhw oedd wedi'u rhwystro rhag gwneud unrhyw weithgaredd yn ystod y 12 mis diwethaf oedd: anabledd corfforol (31% o'r rhai oedd heb gymryd rhan), rheswm arall yn ymwneud ag iechyd (24%), a henaint (22%).
- Roedd y bobl oedd heb wneud unrhyw weithgaredd yn ystod y pedair wythnos diwethaf yn enwi rhwystrau eraill: tywydd gwael (34% o'r rhai oedd heb wneud unrhyw weithgaredd yn ystod y pedair wythnos), yn rhy brysur / diffyg amser (29%), rheswm arall yn ymwneud ag iechyd (19%).

4. Y galw cudd

- Dywedodd dros hanner y bobl (60%) y bydden nhw'n hoffi mynd i'r awyr agored yn amlach. Mae'r rhai 25-34 oed bron ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud y bydden nhw'n hoffi mynd yn amlach (73%) o gymharu â phobl dros 75 oed (40%). Roedd tua dau draean (68%) o'r bobl sydd mewn gwaith yn awyddus i fynd i'r awyr agored yn amlach, o gymharu â dim ond tua hanner (51%) o'r rheini sydd ddim yn gweithio. Dywedodd 71% o'r bobl ar gyflogau uwch (£50,000-79,999) eu bod yn awyddus i fynd yn amlach, o gymharu â dim ond 57% o'r bobl ar gyflogau is (hyd at £15,999).
- Roedd traean o'r bobl (34%) yn awyddus i gerdded yn amlach, a'r nesaf yn y rhestr o'r gweithgareddau y byddai pobl yn awyddus i'w gwneud yn amlach oedd: gweld golygfeydd (8%); beicio ar ffyrdd (7%), beicio oddi ar ffyrdd (7%), nofio yn yr awyr agored (5%) a chwaraeon dŵr heb ddefnyddio cerbyd â modur (5%). Pobl 35-74 oed oedd y rhai sy'n fwyaf tebygol o fod yn awyddus i gerdded yn amlach (38%) a rhai 55-74 oed yw'r rhai oedd yn fwyaf tebygol o fod yn awyddus i fynd i weld golygfeydd (9%). Er bod cyfran lai (23%) o bobl ifanc 16-24 oed yn debyg o fod yn awyddus i gerdded yn amlach, hwn oedd y dewis cyntaf fel gweithgaredd ar gyfer y grŵp oedran hwn gyda beicio ar ffyrdd ac oddi ar ffyrdd (13% a 12%) a chwaraeon dŵr heb ddefnyddio cerbyd â modur (12%) yn dilyn.

Adran B: Gwybodaeth am yr ymweliadau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am wybodaeth fanwl am eu hymweliad mwyaf diweddar â'r awyr agored. Mae'r data o'r cwestiynau hyn wedi cael eu pwysoli yn erbyn y nifer o ymweliadau a wnaeth yr ymatebwyr yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Mae gofyn gweld y canlyniadau yn yr adran sy'n dilyn fel cyfran o'r ymweliadau yn hytrach na fel cyfran o'r boblogaeth. Maen nhw, felly, yn cynnig darlun sy'n cynrychioli'r nifer o deithiau i'r awyr agored.

1. Y gweithgareddau

- Y mathau o weithgareddau roedd pobl yn eu gwneud amlaf yn ystod ymweliadau â'r awyr agored oedd troeon cerdded byr (rhywbeth a gafodd ei wneud ar 35% o'r ymweliadau), mynd â chi am dro (31%); teithiau cerdded hir (28%); a cherdded mewn bryniau (14%). Nesaf yn y rhestr o'r gweithgareddau mwyaf cyffredin oedd defnyddio meysydd chwarae (11%), gwylio bywyd gwyllt (11%), a gweld golygfeydd (10%). Ymhlith y gweithgareddau eraill oedd: rhedeg (6%), gemau anffurfiol (5%), mynd am bicnic (4%), beicio ar ffyrdd ac oddi ar ffyrdd (3% yr un), a marchogaeth (3%). Roedd gweithgareddau eraill yn cael eu gwneud ar lai na 3% o'r ymweliadau.

2. Y llefydd roedd pobl yn ymweld â nhw

- Y lle'r oedd pobl yn ymweld ag e amlaf oedd y parc lleol (15%), gyda choetiroedd neu fforestydd yn dilyn (14%), palmentydd ar ymylon ffyrdd (12%) a bryniau / rhostiroedd (11%). Roedd llai nag un o bob 10 ymweliad (8%) â thir ffermydd, afonydd, llynnoedd, camlesi a mannau agored lleol. Roedd pobl yn ymweld yn llai aml â thraethau (7%) ac arfordiroedd eraill (6%), a'r môr (2%) oedd y lle oedd yn cael ei grybwyll lleiaf aml.

3. Teithio

- Roedd bron i hanner o'r ymweliadau â'r awyr agored (43%) yn golygu teithio llai na milltir. Roedd tua thri chwarter o'r ymweliadau'n golygu teithio llai na 5 milltir (73%). Canolrif y pellter roedd pobl yn teithio oedd 0.94 milltir.
- Roedd y teithio yn achos ychydig dan hanner yr ymweliadau (46%) yn golygu cerdded, ac roedd 44% yn golygu teithio mewn car neu fan. Roedd teithio mewn bws cyhoeddus (3%), beic (3%) neu drên (1%) yn llawer llai cyffredin.

4. Hyd y gwahanol weithgareddau

- Yn achos y mwyafrif o'r ymweliadau (76%), roedd pobl yn treulio dwy awr neu lai'n gwneud eu prif weithgaredd. Yn achos dros hanner yr ymweliadau (51%), roedd pobl yn treulio awr neu lai'n gwneud eu gweithgaredd. Canolrif yr hyd yr oedd gweithgaredd yn para oedd 1 awr.

5. Natur y grwpiau

- Unigolyn oedd yn gwneud dwy ran o bump (39%) o'r ymweliadau. Dau berson oedd yn gwneud bron i draean (30%) o'r ymweliadau. Grwpiau o dri pherson neu fwy oedd yn gwneud ychydig dan draean (32%) o'r ymweliadau. Nid oedd y mwyafrif o'r ymweliadau (60%) yn cynnwys plant dan 16 oed yn y grŵp.
- Yn achos y mwyafrif o'r ymweliadau, roedd yr ymatebydd wedi mynd gyda'i deulu (41%) neu ar ei ben ei hun (39%). Roedd llai o ymweliadau (21%) lle'r oedd ffrindiau gyda'r ymatebydd. Dim ond yn anaml iawn (4% o'r ymweliadau) yr oedd y bobl yn perthyn i grwpiau ffurfiol.
- Yn achos y mwyafrif o'r ymweliadau (62%), nid oedd ci gyda'r ymatebydd. O'r ymweliadau lle'r oedd ci gyda'r ymatebydd, roedd yr ymweliad yn fwyaf tebygol o fod â choetir neu fforest (60%).

6. Y cymhelliad

- Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd yn cymell y bobl i wneud yr ymweliad oedd:
  - "er lles fy iechyd neu fel ymarfer corff' (36% o'r ymweliadau)
  - "i roi ymarfer corff i fy nghi' (26%)
  - "i gael awyr iach / i fwynhau tywydd braf' (22%)
  - "i gymryd rhan yn fy hobi' (20%).

- Y rhesymau llai cyffredin oedd:
  - 'i fwynhau'r golygfeydd a'r bywyd gwyllt' (9% o'r ymweliadau)
  - 'i ddiddanu plant' (8%)
  - 'i ymlacio a chael gwared â straen' (7%)
  - 'i gael heddwch a distawrwydd' (2%)
  - 'i ddysgu rhywbeth am yr awyr agored' (2%).

Cefndir

Crynodeb sydd yn y datganiad hwn o brif ganlyniadau cychwynnol Arolwg 2008 o Hamdden yn yr Awyr Agored yng Nghymru, a gafodd ei wneud rhwng 21 Ionawr 2008 a 20 Ionawr 2009. Hwn yw'r arolwg cyntaf o'r gweithgareddau hamdden mae trigolion Cymru'n eu gwneud yn yr awyr agored. Bwriad y Cyngor Cefn Gwlad a'r Comisiwn Coedwigaeth yw ailadrodd yr arolwg bob tair blynedd.

Casglu data

Cafodd cyfanswm o 6,045 o gyfweliadau ffôn eu cynnal rhwng mis Ionawr 2008 a mis Ionawr 2009 gydag oedolion dros 16 oed sy'n byw yng Nghymru. Roedd y cyfweliadau'n para 13 munud ar gyfartaledd, ac yn cael eu gwneud ar bob diwrnod o'r wythnos (yn cynnwys y penwythnosau) ac ar wahanol adegau o'r dydd a'r mis. Cafodd y sampl ei threfnu'n haenau yn ôl ardal Cynllun Gofodol, ac roedd o leiaf 1,000 o gyfweliadau ym mhob un o chwe Ardal Cynllun Gofodol Cymru.

I wneud y sampl yn un ar hap, defnyddiwyd y system RDD (deialu digidol ar hap) i ddewis cartrefi. Cafodd y system CATI (cyfweld dros y ffôn gyda chymorth cyfrifiadur) ei defnyddio wedyn i ddewis yr ymatebwyr unigol ar hap os oedd mwy nag un oedolyn yn y cartref ar y pryd.

Y tablau data a'r pwysiadau

Mae tablau sy'n rhestru'r holl ddarganfyddiadau o'r arolwg ar gael mewn fformat pdf gyda'r datganiad hwn.

www.ccw.gov.uk

http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-7VQEPA

Mae canlyniadau cwestiynau 1-3 a chwestiynau 16-19 yn y tablau wedi'u pwysoli yn ôl nodweddion demograffig Cymru i roi canlyniadau sy'n nodweddiadol o boblogaeth gyfan y wlad (mae esboniad yn adran A).

Mae canlyniadau cwestiynau 4-15 yn y tablau wedi'u seilio ar wybodaeth am ymweliad diweddaraf yr ymatebydd â'r awyr agored. Mae'r wybodaeth o'r cwestiynau hyn wedi cael ei phwysoli yn ôl y nifer o ymweliadau a wnaethpwyd yn ystod y pedair wythnos diwethaf i roi gwybodaeth am nodweddion yr ymweliadau mae pobl Cymru wedi'u gwneud yn yr awyr agored (mae esboniad yn adran B).

Ystadegau swyddogol

Ystadegau Swyddogol sydd yn y cyhoeddiad hwn. Am fwy o wybodaeth am Ystadegau Swyddogol ac am Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig, ewch i www.statisticsauthority.gov.uk/